Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

# Moderneiddio cynllunio ar gyfer cyswllt ar ôl mabwysiadu

**Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd /**
**Achieving More Together**

# Beth yw'r sefyllfa nawr?

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Mae gan bron pob plentyn a gaiff ei leoli ar gyfer mabwysiadu heddiw gynllun ar gyfer cyswllt 'blwch llythyrau' anuniongyrchol unwaith neu ddwy y flwyddyn, ond efallai na fydd llawer o'r rhain yn cael eu cynnal.
- O archwiliad cyswllt y GMC yn 2022, roedd gan tua 15% o blant gynllun ar gyfer unrhyw fath o gyswllt uniongyrchol - mae hyn yn agos iawn at y ffigur a adroddwyd o friff ymchwil yn 2020, a ganfu mai Cymru oedd â'r gyfran isaf o blant o blith pedair gwlad y DU oedd â chynllun ar gyfer cyswllt uniongyrchol (16%) o'i gymharu â 54% yng Ngogledd Iwerddon.

Post-adoption contact in the 4 nations of the UK, Jones, McDonald a Brooks (2020)

# Beth yw diben y cyswllt?

- Adeiladu neu gynnal perthnasau.
- Rhoi sicrwydd bod plentyn yn cael ei garu a'i gofio.
- Lleddfu poen gwahanu a cholled.
- Rhoi caniatâd i ymgartrefu mewn teulu newydd.
- Cefnogi gwneud iawn ac adfer ar ôl cam-drin.
- Darparu gwiriad realiti.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Rhoi sicrwydd bod perthnasau geni yn fyw ac yn iach.
- Helpu plant i ddeall eu hanes a'u hunaniaeth (yn enwedig ar gyfer plant du a lleiafrifoedd ethnig).
- Cefnogi gwaith stori bywyd a galluogi plant i ofyn cwestiynau am pam nad ydynt yn byw gyda'u rhieni biolegol. Baynes a Neil (2015)

*Sut gallwn ni gyflawni hyn orau ar gyfer pob plentyn* - uniongyrchol, anuniongyrchol, o bell?
*Os nad yw cyswllt uniongyrchol yn ddiogel, sut arall gallwn ni ddiwallu'r anghenion hyn?*

# Canllawiau cynllunio ar gyfer cyswllt

Cyhoeddwyd canllawiau cynhwysfawr yn y Canllaw Arferion Da - Cyswllt, gan y GMC 2019

- Faint mae ymarfer yng Nghymru wedi newid dros y 4 blynedd diwethaf - i ba raddau y mae penderfyniadau am gyswllt wedi'u dylanwadu gan y CAD?
- Sut gallwn ni hyrwyddo a gwreiddio arferion gorau mewn ffordd ymarferol, o ystyried lefelau uchel o drosiant staff?

# Offeryn cynllunio ar gyfer cyswllt

Mae angen rhywbeth, sy'n helpu ymarferwyr i lunio a diwygio cynlluniau ar gyfer cyswllt, sydd:

- Wedi'i seilio ar anghenion y plentyn
- Wedi'i addasu i amgylchiadau unigol – *nid ymateb fformiwla*
- Yn arfer gorau - yn tynnu ar dystiolaeth ymchwil
- Yn hawdd ei ddefnyddio ac yn osgoi dyblygu

**Adnodd posib: Contact: Making good decisions for children in public law** Offeryn cynllunio a ddatblygwyd gan Elsbeth Neil ym Mhrifysgol East Anglia

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service







'Mae cynllunio ar gyfer cyswllt i blant mewn lleoliad parhaol yn broses ddeinamig, yn hytrach na digwyddiad untro'

‘Er mai ar gyfer plant y mae cynlluniau cyswllt maent yn cael eu deddfu gan oedolion ac efallai y byddant yn cael eu helpu neu eu rhwystro gan berthnasau rhyngddynt a'r cymorth sy’n (neu nad yw’n) bodoli’.

# Dogfennau

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

**Canllaw cryno -** yn seiliedig ar offeryn Beth Neil ac yn cyd-fynd â'r Canllaw Arferion Da - Cyswllt – 4 tudalen

**Offeryn cynllunio ar gyfer cyswllt -** ar gyfer plentyn penodol, i gyd-fynd â'r canllaw cryno – 2 dudalen

**D.S.** Ni fwriedir i'r rhain ddisodli'r Canllaw Arferion Da, ond ei ategu/i'w defnyddio ochr yn ochr ag ef.

# Egwyddorion ac amcanion

Darparu offer ymarferol i ymarferwyr wneud cynlluniau ar gyfer cyswllt sydd:

- Yn ystyried anghenion tebygol plentyn yn y tymor hir
- Yn adlewyrchu arferion gorau
- Wedi'u seilio ar dystiolaeth
- Wedi'u llywio gan ymchwil

# Gweithredu

Mae'r canllaw a'r offeryn cynllunio i'w defnyddio i wneud cynlluniau a pharatoi dogfennau allweddol o gam cynnar, drwy fynd ag ymarferwyr trwy broses strwythuredig, sy'n cefnogi arfer myfyriol, wrth osgoi dyblygu ymdrech.

- Paratoi CAR/B ar gyfer Penderfyniad Dylid Lleoli ar gyfer Mabwysiadu
- Cysylltu/Paru
- Cynllun Cymorth Mabwysiadu
- Adolygu anghenion cymorth ar ôl mabwysiadu

# Astudiaeth Achos 1

- Mae Molly yn 10 mis oed. Hi yw'r 5ed plentyn i gael ei eni i'w mam fiolegol, Tara. Mae dau frawd/chwaer lawn blaenorol wedi eu mabwysiadu gyda'i gilydd ac mae ei dau hanner brawd/chwaer hŷn mewn gofal maeth hirdymor ac mae'r hynaf yn ymadawyr gofal sy'n byw'n annibynnol ond yn derbyn cymorth gan y tîm Ôl-ofal. Dangosodd un o'r brodyr/chwiorydd mewn gofal maeth ymddygiad rhywiol tuag at blentyn iau mewn lleoliad a chafodd ei symud i leoliad arall.
- Cafodd Molly ei lletya yn dilyn asesiad magu plant preswyl, a bu'n rhaid ei dorri'n fyr ar ôl digwyddiad treisgar yn ymwneud â'i thad biolegol. Mae hi wedi cael cyswllt dan oruchwyliaeth â'i mam enedigol a 2 o'i hanner brodyr/chwiorydd hŷn sy'n blant sy'n derbyn gofal. Mae cyswllt â Tara wedi bod yn gyson ac yn gadarnhaol.
- Gofynnwyd i rieni mabwysiadol y brodyr/chwiorydd a gafodd eu mabwysiadu i weld a hoffent gael eu hystyried ar gyfer Molly, ond nid ydynt yn teimlo eu bod yn gallu gwneud hynny. Maen nhw'n agored i'w brodyr/chwiorydd gael cyswllt â Molly, os caiff ei rhoi gyda theulu mabwysiadol arall. Fodd bynnag, mae ganddynt amheuon ynghylch gwneud hynny, os oes cyswllt hefyd â'r hanner brodyr/chwiorydd hŷn.
- Mae gan Tara fân anawsterau dysgu ac mae wedi profi cam-drin domestig yn ei pherthynas â thadau ei phlant. Cafodd ei lletya ei hun pan oedd hi'n 7 oed ar ôl canfod iddi gael ei cham-drin yn rhywiol gan ei llys-dad a'i bod wedi dod i gysylltiad â cham-drin domestig. Mae hi'n gweithio'n adeiladol gyda gwasanaethau plant ac mae wedi ei chyfeirio i'r cynllun Reflect lleol. Mae Tara wedi mynegi gofid mawr am ei hanallu i amddiffyn ei phlant eraill ac yn derbyn nad yw hi'n gallu gofalu am Molly ar hyn o bryd. Nid yw'n cytuno nac yn gwrthwynebu'r cynllun ar gyfer mabwysiadu. Hoffai i Molly gael cyswllt â'i brodyr/chwiorydd ac, os yw'n bosibl, i gael cyswllt uniongyrchol â hi. Mae Tara yn awyddus i gymryd rhan mewn cyfarfod wyneb yn wyneb cychwynnol â darpar fabwysiadwyr ar gyfer Molly.

# Astudiaeth Achos 2

- Mae Dafydd yn 4 oed. Cafodd ef a'i ddau frawd/chwaer iau eu lletya 18 mis yn ôl. Tra roedden nhw'n dal yng ngofal y teulu biolegol, roedd Dafydd yn amddiffynnol iawn o'i frodyr/chwiorydd iau. Cymerodd rôl ofalu ac roedd yn fwy annibynnol na'r hyn y byddai disgwyl i blentyn o’i oedran ef. Cafodd y tri phlentyn eu lleoli gyda dau deulu maeth gwahanol. Maen nhw wedi cael cyswllt rheolaidd â'i gilydd hyd at 3 mis yn ôl a chyswllt dan oruchwyliaeth â'u rhieni biolegol sydd wedi bod yn anghyson.
- Gwnaed gorchymyn lleoli ar gyfer y tri phlentyn, gyda chynllun i'r ddau iau gael eu mabwysiadu gyda'i gilydd a Dafydd i'w leoli ar wahân. Cafodd y ddau iau eu lleoli gyda'u rhieni mabwysiadol 2 fis yn ôl yn dilyn cyswllt ffarwelio â’u rhieni biolegol a Dafydd. Roedd Dafydd yn ofidus iawn gyda'r cyswllt hwn. Roedd yn ddistaw ac yn ei chael hi'n anodd derbyn cysur gan ei ofalwyr maeth yn dilyn hyn, ond yn ystod yr wythnosau diwethaf yn dilyn rhywfaint o therapi chwarae, mae'n mynegi ei deimladau'n fwy agored ac yn caniatáu i'w ofalwyr ei gysuro.
- Y gobaith yw dod o hyd i deulu mabwysiadol i Dafydd, lle mai ef fydd yr unig blentyn am y dyfodol rhagweladwy a lle mae'n gadael i'w hun gael gofal mewn ffordd sy'n briodol i'w oedran. Mae cyswllt posib wedi'i nodi gyda gofalwr sengl yng Ngogledd Lloegr, tra bod brodyr a chwiorydd Dafydd wedi'u lleoli gyda theulu yn Ne Cymru.

# Cymhwyso'r canllaw a'r offeryn cynllunio i'r astudiaethau achos

- Beth yw rhai o anghenion Molly neu Dafydd nawr ac yn y dyfodol, y gallai cyswllt eu diwallu?
- Nodwch rai cryfderau ac anghenion cymorth posibl mewn perthynas â phob plentyn ac aelodau’r teulu biolegol a fydd yn cyfrannu at gyswllt cadarnhaol.
- Beth fyddech chi'n chwilio amdano mewn darpar fabwysiadwyr, er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o gyswllt cadarnhaol i'r plentyn yn y dyfodol?
- Beth yw manteision ac anfanteision cynllunio ar gyfer cyswllt uniongyrchol, anuniongyrchol neu o bell ar gyfer pob un o'r plant hyn?